# Cyfarfod ar y cyd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

## Dydd Iau 18 Hydref, Tŷ Hywel, Ystafelloedd Cynadledda C a D

## Cofnodion drafft

**Yn bresennol**

- Mark Isherwood AS (Cadeirydd)
- Deborah Smith, Wordsmith Communication (Ysgrifennydd - Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phorfedigaeth)
- Matthew Brindley, Hospice UK (Ysgrifennydd – Grŵp Trawbleidiol ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol)
- Kim Bird
- Terry Tennens, SAIF
- Kathy Riddick, Dyneiddwyr y DU
- Andrew Judd, NAFD
- Rachel Bradburne, NAFD
- Philip Blatchly, PR Blatchly
- Carol Humphreys, Gofalu am y Teulu
- Maxine Johnson, Cruse Bereavement Support Cymru
- Stephen Tom, Phillip Tom & Sons
- Rhys Price, Gwilym Price
- Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant
- Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant
- Catrin Glyn, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr
- Rachel Bradburne, NAFD
- Tomos Evans, Marie Curie
- Glenn Page, Cymorth Canser Macmillan
- Gethin Rhys, Cytûn Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
- Huw Owen, Hosbis Plant Tŷ Hafan/Tŷ Gobaith
- Jon Antoniazzi, Marie Curie
- Phillip Blatchly, Phillip Blatchly & Sons
- John Adams, Perry & Phillips
- Anna-Louise Marsh, Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru
- John Moss, Rheolwr Rhaglen y Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol
- Liz Booyse, Cadeirydd Hospices Cymru
- Ceridwen Hughes, Same But Different
- Mary Mitchell, Lived Experience
- Katie Reade, Hospice UK
- Dr Sally Stringer, Same but Different
- Laura Hugman, Hosbis yn y Cartref Paul Sartori
- Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd
- Tash Wynne, Marie Curie

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd Mark Isherwood AS, cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbisau a Gofal Lliniarol a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth, y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn Nhŷ Hywel a'r rhai a oedd yn ymuno ar-lein i gyfarfod cyntaf y Grwpiau Trawsbleidiol ar Ofal Hosbisau a Gofal Lliniarol, ac Angladdau a Phrofedigaeth.

Eglurodd Mark mai nod y cyfarfod oedd dod â dau grŵp ynghyd sydd ag amcanion a chynulleidfaoedd penodol, ond â chysylltiad a rennir ar faterion yn ymwneud â gofal diwedd oes – o ran y rhai sy'n marw a'r rhai sydd agosaf atynt, gan alluogi'r aelodaeth gyfunol i rannu gwybodaeth a sbarduno trafodaethau a allai arwain at gydweithio rhwng y ddau Grŵp.

**Ymddiheuriadau**

Adroddodd Deborah Smith a Matthew Brindley fod ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan:

- Darren Millar AS
- Mike Hedges AS
- Jane Dodds AS
- Llyr Gruffydd AS
- Ahmed Alsisi, White Rose Funerals
- Graham Swan, Cymdeithas Genedlaethol Darparwyr Cynlluniau Angladdau
- Kate Edwards, Pathway Associates
- Emma Kneebone, 2Wish
- James Cooper, Together for Short Lives
- Maxine Johnson, CRUSE
- Dr Idris Baker, Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes
- Heledd Fychan AS
- Mabon ap Gwynfor AS
- Anna Tee, Cymorth Canser Macmillan

**Cofnodion cyfarfodydd blaenorol; materion yn codi**

Dywedodd Deborah fod y Grŵp Angladdau a Phrofedigaeth wedi cwrdd fwyaf diweddar ar 11 Gorffennaf. Anfonwyd cofnodion y cyfarfod at aelodau cyn y cyfarfod heddiw. Nid oedd dim cwestiynau na chywiriadau i'r cyfrifon o'r llawr ac fe gynigiwyd derbyn y cofnodion gan Phil Blatchly a'i eilio gan Terry Tennens.

Roedd y Grŵp Gofal Hosbisau a Gofal Lliniarol wedi cwrdd ddiwethaf ar 13 Gorffennaf 2023. Adroddodd Matthew Brindley fod cofnodion y cyfarfod wedi'u hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Nid oedd dim cwestiynau na chywiriadau i'r cyfrifon o'r llawr ac fe gynigiwyd derbyn y cofnodion gan Grant Usmar a'i eilio gan Liz Booyse.

**Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbisau a Gofal Lliniarol: Gwaith sy’n parhau a gwaith sy’n codi**

| Dyddiad | Camau i’w cymryd | Statws |
|---|---|---|
| 13 Gorffennaf | Y grŵp i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch heriau y mae hosbisau Cymru yn eu hwynebu | I’w gwblhau |
| 18 Hydref | Y Grŵp i ysgrifennu at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch materion sy'n wynebu Hosbis Dewi Sant | |
| 18 Hydref | Y Grŵp i ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i’w hysbysu o'r prosiect What Matters Most a phwysigrwydd sicrhau bod profiadau byw pobl o ofal lliniarol a gofal diwedd oes yn ganolog i wneud penderfyniadau. | |
| 18 Hydref | Archwilio opsiynau i Anna-Louise rannu adroddiad Ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol fel rhan o fodiwlau 2 a 3 o Ymchwiliad Covid-19 y DU, ynghyd â chysylltu ag Altaf Hussain AS, sy'n aelod o'r Pwyllgor COVID yn y Senedd. | |

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth Gwaith sy’n parhau a gwaith sy’n codi**

| Dyddiad | Camau i'w cymryd | Statws |
|---|---|---|
| 10 Gorffennaf | Aildrefnu cyfarfod tîm adolygu Comisiwn y Gyfraith. | Yn aros nawr am fewnbwn ar ddyddiadau gan dîm Comisiwn y Gyfraith |
| 10 Gorffennaf | Gweithredodd Mark Isherwood lythyr at y Prif Weinidog a gweinidogion perthnasol yn tynnu sylw at botensial pwysig awtopsi digidol a diffyg mynediad i bobl Cymru. | |
| 18 Hydref | Awgrymodd Mark Isherwood AS gysylltu ag Altaf Hussain AS, sy'n aelod o'r Pwyllgor COVID yn y Senedd, ynghylch cyfranogiad y sector angladdau yn yr Ymchwiliad COVID. | |
| 18 Hydref | Gweithredodd Mark Isherwood lythyr at Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru, ar ran y Grŵp Trawsbleidiol, i dynnu sylw at yr ymgyrch profedigaeth mewn addysg. | |
| 18 Hydref | Deborah Smith i roi John Adams a Gethin Rhys mewn cysylltiad ynghylch ymgyrch profedigaeth mewn addysg. | |

**Siaradwr: Yr heriau sy'n wynebu hosbisau Cymru ac Adolygiad Cyllid Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes Cam 3 Llywodraeth Cymru**

Tynnodd Liz Booyse, Cadeirydd Hospices Cymru, sylw at y cais am gyllid ar gyfer hosbisau sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Cyfeiriodd hefyd at rai o'r heriau sy'n wynebu hosbisau Cymru a rhoddodd ddiweddariad ar Adolygiad Cyllid Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes Cam 3 Llywodraeth Cymru. Tynnodd sylw at y risg bosibl o golli staff talentog a'r mater parhaus o gyflog teg a chyfartal yn hosbisau Cymru.  Nododd Mark Isherwood AS y Datganiad Cyllideb a gyhoeddwyd y diwrnod cynt, ond nad oedd yn glir eto sut y byddai'r cyllid yn cael ei dorri.

Gwnaeth Trystan Pritchard y pwynt ei bod yn parhau i fod yn "loteri cod post" o ran cael gafael ar gymorth a chyllid i deuluoedd, ac er iddyn nhw gael gwybod eu bod yn 'rhan o'r teulu' o ran y fframwaith profedigaeth, roedd hosbisau'n aml yn teimlo fel alltudion - ac nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi. Pwysleisiodd hefyd, er fod byrddau iechyd yn ystyried eu bod yn gwneud cyfraniad o 25 y cant at ariannu hosbisau, roedd am geisio sicrhau, yn hytrach, eu bod yn deall bod hosbisau'n cynnig gostyngiad o 75 y cant iddynt yn eu costau o ddarparu gofal diwedd oes. Disgrifiodd sut mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn torri tua £150,000 o'i gyllid ar adeg pan fo'r Bwrdd Iechyd wedi cau ei welyau gofal lliniarol arbenigol ei hun ac yn disgwyl i Hosbis Dewi Sant gwrdd â'r diffygion. Dylai'r adolygiad cyllid fynd i'r afael â'r pwysau uniongyrchol hyn a'r loteri cod post o ran cyllid hosbisau yng Nghymru, ochr yn ochr ag adeiladu model mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Gofynnodd Mark Isherwood a oedd hosbisau eraill yn wynebu pwysau tebyg. Dywedodd Emma Saysell o Ofal Hosbis Dewi Sant nad oedden nhw'n cynllunio toriadau a'u bod yn ffodus bod eu Bwrdd Iechyd wedi rhoi codiad iddynt. Dywedodd Laura o Hosbis yn y Cartref Paul Sartori nad ydyn nhw wedi cael codiad gan eu Bwrdd Iechyd a'u bod mewn sefyllfa ansicr yn aros iddo gynhyrchu fframwaith comisiynu newydd.

Tynnodd Andrew Judd sylw at y mater o ragddyfalu galar, a rôl bwysig hosbisau wrth gefnogi'r rhai sy'n agos at berson mewn gofal hosbis cyn profedigaeth.

Gweithredodd Mark Isherwood a'r Grŵp Trawsbleidiol lythyr at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch y materion sy'n wynebu Hosbis Dewi Sant. Dywedon nhw hefyd y bydden nhw'n cadw mewn cysylltiad â Hosbisau Cymru ac o bosibl yn ysgrifennu at y Gweinidog

Iechyd am yr heriau sy'n wynebu hosbisau Cymru, yn amodol ar ddatblygiadau gyda'r adolygiad cyllid.

**Siaradwr: Goblygiadau Ymchwiliad Llawnach i ofal pobl sydd wedi marw, Rachel Bradburne (NAFD)**

Rhoddodd Rachel Bradburne, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus y NAFD ddiweddariad ar yr ymchwiliad annibynnol i weithredoedd y cyn-drydanwr ysbyty, David Fuller, yng Nghaint, a oedd bellach yn ehangu ei waith i ganolbwyntio ar sut y darperir gofal i bobl sydd wedi marw, nid yn unig mewn ysbytai, ond mewn lleoliadau cymunedol hefyd.

Amlinellodd y gwersi posibl a'r canlyniadau rheoleiddio ar gyfer Cymru a phwysleisiodd fod gan hyn oblygiadau ar gyfer unrhyw leoliad lle gallai'r ymadawedig gael gofal, boed hynny ond am gyfnod byr, hyd yn oed, felly mae'n berthnasol i gynrychiolwyr y ddau grŵp trawsbleidiol.

Soniodd Rachel am y gwaith oedd yn digwydd yn y sector angladdau o ran goruchwylio safonau gofal, yr amserlenni a'r canlyniadau tebygol, a nododd, er bod yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar Loegr, bod unrhyw argymhellion a ddaw ohono yn debygol o gael eu hystyried ledled y DU.

Gofynnodd Kim Bird a fyddai'r Ymchwiliad yn ystyried materion fel cynnwys teuluoedd a chymunedau mewn arferion fel golchi defodol. Cefnogodd John Adams y pwynt hwn a chynigiodd astudiaeth achos am angladd dyn ifanc a fu farw drwy hunanladdiad a'r gwaith yr oedd ei fusnes angladdol wedi'i wneud i newid awyrgylch y marwdy trwy ddefnyddio canhwyllau a cherddoriaeth i'w gwneud yn llai clinigol ac yn fwy croesawgar i'w deulu gan eu bod wedi dymuno bod yn rhan o'r gofal ohono. Pwysleisiodd y ddau ohonynt bwysigrwydd sicrhau nad yw unrhyw ganllawiau yn y dyfodol yn gwneud y math hwn o ymwneud â theulu/cymuned mewn gofalu am yr ymadawedig yn amhosib.

Nododd Rachel Bradburne hefyd mai bwriad yr Ymchwiliad oedd ystyried POB sefyllfa lle gellir gofalu am yr ymadawedig ac felly mae'n debygol y bydd tîm yr Ymchwiliad hefyd yn ystyried y cartref. Dywedodd bod pobl mewn profedigaeth a'u profiadau yn bwysig i dîm yr Ymchwiliad ac y byddai hyn yn parhau i fod yn rhan gryf ohono. Daeth i'r casgliad, o ystyried amseriad yr ymchwiliad, bod risg y gallai'r cyfle am unrhyw newid sylweddol gael ei golli o ganlyniad i'r Etholiad Cyffredinol y flwyddyn nesaf.

**Siaradwr: Cyflwyniad i brosiect adrodd straeon gweledol *Beth Sydd Bwysicaf* gan Ceridwen Hughes**

Ymunodd Ceridwen Hughes, ffotograffydd a chyfarwyddwr Same but Different â'r cyfarfod, i gyflwyno'r prosiect Beth Sydd Bwysicaf a ysbrydolwyd gan ei phrofiad ei hun o ofal diwedd oes pan fu farw ei mam yn 2020. Yn anffodus, roedd Ceridwen wedi colli ei llais ac felly rhoddwyd ei chyflwyniad gan Dr Sally Stringer.

Drwy ffotograffiaeth, ffilm, a chofnod ysgrifenedig o brofiadau'r rhai sy'n derbyn gofal ac yn darparu gofal, eglurodd Sally sut roedd Ceridwen wedi dal profiadau'r rhai sy'n byw gyda marwolaeth a'r rhoddwyr gofal sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth, gyda'r nod o wella gofal diwedd oes.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, nododd Mary Mitchell gymaint o foddhad yr oedd wedi ei gael o fod yn rhan o'r prosiect.

Mynegodd Andrew Judd ei edmygedd o'r prosiect a pha mor wylaidd a theimladwy oedd gwylio'r ffilm. Soniodd am bwysigrwydd trosglwyddo gofal gan y rhai sy'n ymwneud â gofal hosbis a lleoliadau gofal lliniarol eraill i drefnwyr angladdau a phwysigrwydd ymddiriedaeth.

Diolchodd Matthew Brindley i bartneriaid fel Marie Curie a gwirfoddolwyr hosbisau am eu hymgysylltiad â'r prosiect a dywedodd fod y prosiect wedi deillio o awydd i ddal profiadau bywyd go iawn a thynnu sylw at faterion allweddol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Genedlaethol bresennol a'r adolygiadau cyllid.

Gweithredodd Mark Isherwood a'r Grŵp lythyr at Gadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, i'w hysbysu o'r prosiect a phwysigrwydd sicrhau bod profiadau byw pobl o ofal lliniarol a gofal diwedd oes yn ganolog i wneud penderfyniadau.

**Trafodaeth: Profiadau o gymorth profedigaeth yng Nghymru a sut y gellir ei wella**

Rhoddodd Anna-Louise Marsh, Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru,, ddiweddariad i'r cyfarfod am yr Ymchwiliad COVID, a'r sylwadau a wnaed ar ran 500 o deuluoedd yng Nghymru a gafodd brofedigaeth, gyda llawer ohonynt heb gael cymorth profedigaeth priodol.

Roedd y grŵp wedi galw am ymchwiliad penodol i Gymru, a wrthodwyd, ond maent bellach yn gyfranogwyr craidd yr Ymchwiliad COVID ar gyfer y DU gyfan.

Tynnodd sylw at y ffaith fod Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi caniatáu ffotograffydd i farwdy yn ystod y pandemig, i gofnodi profiad y pandemig, ond anwybyddwyd goblygiadau hyn o ran hawliau'r ymadawedig a'u teuluoedd - hyd yn oed os nad oedd modd adnabod unigolion.  Dywedodd Rachel Bradburne y gallai fod gan yr Awdurdod Meinwe Dynol ddiddordeb yn hyn pe bai urddas yr ymadawedig wedi'i gyfaddawdu.

Diolchodd Anna-Louise i drefnwyr angladdau am fod yn arwyr di-glod yn ystod y pandemig gan mai nhw, yn aml, oedd yr unig bobl a roddodd gefnogaeth i deuluoedd mewn profedigaeth, a chytunodd ag Andrew Judd ar ei bwynt am ragddyfalu galar.

Nododd ei bod yn awyddus i weld hyfforddiant gorfodol mewn profedigaeth ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd a'i bod yn gweithio'n agos gyda John Moss ar hyn.

Rhoddodd John Moss, Rheolwr Rhaglen y Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol, ddiweddariad ar y Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol, gan atgoffa'r rhai oedd yn bresennol o hanes y prosiect o'r adolygiad o wasanaethau profedigaeth yng Nghymru yn 2019, lansio'r fframwaith yn 2021 a gwaith cyfredol i greu llwybrau profedigaeth cenedlaethol o ran colli babanod a phlant. Nododd John hefyd fod gwaith i greu safonau profedigaeth, a dyma'r mesur ansawdd cyntaf i'w gynnwys yn fframweithiau Perfformiad Bwrdd Iechyd y GIG.

Nododd Terry Tennens ac Andrew Judd eu bod wedi cymryd rhan yn un o gyfarfodydd y grŵp llywio.

Gofynnodd Gethin Rhys beth oedd wedi digwydd i Cymru Garedig. Ymatebodd John Moss fod gwaith ar y gweill i'w ailsefydlu, a sicrhau bod y rhwydwaith yn parhau i fod yn ei le.

Cynigiodd Anna-Louise Marsh anfon adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbisau a Gofal Lliniarol i Ymchwiliad COVID y DU. Credir y bydd gofal lliniarol yn dod o dan yr Ymchwiliad yn ystod hydref 2024.

Awgrymodd Mark Isherwood AS hefyd gysylltu ag Altaf Hussain AS, sy'n aelod o'r Pwyllgor COVID yn y Senedd.

**Trafodaeth: Cefnogi pobl ifanc a'u haddysgu am brofedigaeth**

Ymunodd John Adams, Perry & Phillips Funeral Directors o Sir Amwythig, â'r cyfarfod i gyflwyno ei ymgyrch i weld profedigaeth a cholled yn cael eu hychwanegu at y Cwricwlwm Cenedlaethol. Esboniodd John sut y collodd ei fam yn 12 oed a bod y profiad hwn, ynghyd â'i rôl fel trefnydd

angladdau, wedi llywio sut mae'n cefnogi teuluoedd drwy brofedigaeth – a'i fod wedi'i ysgogi i lansio ymgyrch yn ystod ei flwyddyn fel Llywydd NAFD (2022-23). Hyd yma mae wedi trafod y pwnc gyda'r Brenin, wedi sicrhau 11,000 o lofnodion a dadl yn Senedd y DU - ac ymrwymiad i'r pwnc gael ei adolygu gan Adran Addysg y DU.

Nodwyd gan Jon Antoniazzi fod gwaith cadarnhaol wedi bod mewn partneriaeth â Marie Curie o ran hyfforddiant athrawon yng Ngogledd Iwerddon a allai fod yn werth ei ystyried fel model.

Tynnodd Gethin Rhys sylw hefyd at y ffaith fod opsiynau o fewn y cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb o bosibl i gynnwys y pwnc hwn a chynigiodd Deborah Smith fynd i'r afael â hyn ar ôl y cyfarfod a chysylltu John Adams a Gethin Rhys.

Cynigiodd Mark Isherwood ysgrifennu at Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ar ran y Grŵp Trawsbleidiol, i dynnu sylw at yr ymgyrch.

## Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw eitemau o dan Unrhyw Fusnes Arall.

## Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol

Nododd Matthew Brindley a Deborah Smith mai ym mis Ionawr y byddai'r cyfarfodydd nesaf ar gyfer y ddau Grŵp, gyda dyddiadau i'w dosbarthu cyn gynted â phosibl.